

COVID-19 Update: 16th June

Here is the latest COVID-19 update from Cardiff Council, covering: the latest on schools reopening on Monday, 29th June; thanks to Cardiff's Independent Living Services, a 96-year-old war veteran whose Nantgarw home was devastated during Storm Dennis gets a new start; and how to help us put together the latest active travel network map for the city.

Latest information on schools reopening

The Minister for Education in Wales has set out expectations that all children and young people in Wales should have some opportunities to attend their school in the remaining weeks of the summer term from Monday 29th June.

The focus of these sessions in school will be to “check in, catch up and prepare for summer and September.”

Since all schools closed for statutory education on 23 March, learning at home has been supported remotely by schools, and this will continue. I would like to thank all of you for your contribution during this difficult period. It is unlikely that schools will return to the way they were before lockdown for some considerable time. The planned arrangements for the final weeks of term are therefore intended to support the ongoing mix of school and home-based learning.

To help schools plan for pupils to return safely from 29 June, the Welsh Government has published guidance, ‘Keep Education Safe’. This provides practical and learning guidance on preparing schools for a phased return up to the end of the summer term.

In each school there will be a phased approach. Year groups will be split into small groups with staggered starts and breaks and it is expected that this will mean, at most, a third of pupils present at any one time, including the children of key workers who were previously looked after in our hub schools. Hub childcare will cease from 26 June.

From 29 June all schools will be able to provide some childcare for the children of keyworkers, but the extent of this will necessarily be limited by the need to provide spaces for the planned sessions for other learners as well. Further details on this are at the end of this letter.

Not all learners will return at once and, when they do return, the school day might start and end at different times for different learners. This may include different arrangements for siblings of different ages, attending the same school.

When your child returns to school, there will be a focus upon pupil wellbeing and on ensuring continuity between school-based and home learning. In secondary schools, there may be a greater focus, in some year groups, on supporting pupils' learning, in anticipation of the academic demands of the forthcoming school year.

Schools would like to see all of their pupils return for some session during this ‘check in’ period. If parents/carers decide not to send their children to school during these weeks of the summer term, they will not be penalised. Because of the Welsh

Government social distancing requirements our home to school transport will be significantly restricted. All parents are encouraged wherever possible to use their own transport to get children to school if they cannot walk or bike.

Cardiff Council is working closely with schools to ensure that they can manage the safe return of pupils and staff, and limit the spread of the virus by operating in physically distanced environments.

Measures will include:

- New health & safety procedures to include space capacity assessments and risk assessments to establish volume, appropriate furniture lay-out, movement of pupils and management of external spaces
- Hygiene and cleaning to establish a regime for hand washing, contact point cleaning and deep cleaning of school spaces
- Workforce capacity assessments to ensure adequate staffing and staff preparation and support
- Identifying equipment and additional resources such as PPE and its use, based on clear and informed advice
- Additional support for the health and well-being of pupils and school staff
- Widening of pavements and pathways at some school sites to facilitate safe social distancing at arrival and departure times
- Introduction of temporary 20mph limits on roads around schools where possible and consideration of temporary road closures at drop-off and pick up times

It should be noted that schools will not be providing meals so children will be expected to arrive with a packed lunch. For children eligible for free school meals, the e-voucher and parent pay systems will continue to be in place.

Schools will communicate their plans for the restart from the 29th June to all parents. The Council will shortly issue a series of Frequently Asked Questions which pupils, parents and carers may be asking.

For more information about The Welsh Government's guidance to schools please go to: <https://gov.wales/education-coronavirus>

Independent living support for war veteran and flood victim

A 96-year-old war veteran whose home was devastated during Storm Dennis has been given a new lease of life, thanks to Cardiff's Independent Living Services.

Gordon Matthews was rescued from his home in Nantgarw on his 96th birthday in February when last winter's stormy and wet weather brought floods to South Wales and across the country.

The World War II Royal Air Force veteran featured on national news being taken to safety from his home in a boat surrounded by knee-high flooded water. His treasured war medals were the only things he managed to salvage from his home before leaving.

Now, Mr Matthews is safe and well living with his daughter Catherine in his childhood home in Tongwynlais, which has been possible thanks to the intervention of the Council's Independent Living Services.

The service takes a fully integrated, person-centred approach to removing barriers to daily living and independence for elderly and vulnerable people in the city based on their own goals, strengths and identified outcomes. The service supports individuals to remain active and as independent as possible living at home by helping them access services, providing advice and equipment or carry out adaptations at their homes.

A number of adaptations to the Tongwynlais property were carried out by the Council including the installation of a stair lift, level access shower, rails to assist Mr Matthews' mobility around the house, chair raisers, a bed loop to help getting in and out of bed, additional heating and improved access to the home.

Leader of the Council, Cllr Huw Thomas, said: "Mr Matthews' story is a perfect example of the great work carried out by Independent Living Services to help people live as independently as possible for as long as possible. It demonstrates the impact the service has on people's lives.

"The work at Mr Matthews' daughter's home means he can live with family and not be alone, at this particularly difficult time. We know he is beginning to recover from the distress he experienced earlier in the year and is settling in very well, enjoying daily exercise in the community which is having a positive effect on his physical and mental wellbeing."

Mr Matthew's daughter Catherine said: "He no longer feels trapped in the bedroom. I don't have to worry about him trying the stairs alone and potentially having an accident. He is making great progress in his day-to-day living, even walking a little bit further every day to build up his strength."

For more information about the Council's Independent Living Services, visit www.cardiff.gov.uk/independentliving

Help us plan the Active Travel Network Map

Parents and children are being asked about the regular routes they take on foot or by scooter and bike to help us plan the Active Travel Network Map.

As part of our commitment to promoting and helping active school travel we need to understand which routes are taken and which new routes are needed.

Parents and children can fill in their route and download a certificate of completion: <https://keepingcardiffmoving.co.uk/activetravelschools/take-action/events-and-competitions-copy/>

Diweddraf COVID-19: 16 Mehefin

Dyma'r diweddraf ar COVID-19 gan Gyngor Caerdydd: gwybodaeth ddiweddraf am ysgolion yn ail-agor; mae cyn-aelod 96 oed o'r Lluoedd Arfog y cafodd ei gartref ei ddinistrio yn ystod Storm Dennis wedi cael hwb mawr trwy gymorth

Gwasanaethau Byw'n Annibynnol Caerdydd; a helpu i gynllunio Map Rhwydwaith Teithio Llesol.

Gwybodaeth ddiweddaraf am ysgolion yn ail-agor

Mae Gweinidog Addysg Cymru wedi nodi disgwyliadau y dylai pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gael rhai cyfleoedd i fynychu eu hysgol yn yr wythnosau sy'n weddill yn nhymor yr haf o ddydd Llun 29 Mehefin.

Ffocws y sesiynau hyn yn yr ysgol fydd "gwirio fod pawb yn iawn, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi."

Ers i'r holl ysgolion gau ar gyfer addysg statudol ar 23 Mawrth, mae dysgu gartref wedi ei gefnogi o bell gan ysgolion, a bydd hyn yn parhau. Carwn ddiolch i chi gyd am eich cyfraniad yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'n annhebygol y bydd ysgolion yn dychwelyd i'r ffordd y buont cyn cyfnod y cloi a hynny am gryn amser. Bwriad y trefniadau arfaethedig ar gyfer wythnosau olaf y tymor felly yw cefnogi'r gymysgedd barhaus o ddysgu yn yr ysgol ac yn y cartref.

Er mwyn helpu ysgolion i gynllunio ar gyfer gweld disgyblion yn dychwelyd yn ddiogel o 29 Mehefin, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw, 'Cadwch Addysg yn Ddiogel'. Mae hwn yn darparu canllawiau ymarferol a chanllawiau dysgu ar baratoi ysgolion ar gyfer dychwelyd i'r ysgol yn raddol hyd at ddiwedd tymor yr haf.

Bydd dull gweithredu graddol ym mhob ysgol. Bydd grwpiau blwyddyn yn cael eu rhannu'n grwpiau bach gyda gwahanol adegau ar gyfer dechrau ac amser egwyl a disgwylir y bydd hyn yn golygu, ar y mwyaf, mai traean o'r disgyblion a fydd yn bresennol ar unrhyw un adeg, gan gynnwys plant gweithwyr allweddol a oedd yn arfer derbyn gofal yn ein hysgolion hyb. Bydd gofal plant hyb yn dod i ben ar 26 Mehefin.

O 29 Mehefin bydd pob ysgol yn gallu darparu rhywfaint o ofal plant ar gyfer plant gweithwyr allweddol, ond bydd hyd a lled hyn o reidrwydd wedi ei gyfyngu gan yr angen i ddarparu gofod ar gyfer y sesiynau cynlluniedig i ddysgwyr eraill hefyd. Ceir rhagor o fanylion am hyn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Ni fydd pob disgybl yn dychwelyd ar unwaith, a phan fyddant yn dychwelyd, gall y diwrnod ysgol ddechrau a gorffen ar adegau gwahanol i ddisgyblion gwahanol. Gall hyn gynnwys trefniadau gwahanol ar gyfer brodyr a chwiorydd o wahanol oedrannau, yn mynychu'r un ysgol.

Pan fydd eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol, bydd ffocws ar lesiant disgyblion ac ar sicrhau dilyniant rhwng dysgu yn yr ysgol ac yn y cartref. Mewn ysgolion uwchradd, efallai y bydd mwy o ffocws, mewn rhai grwpiau blwyddyn, ar gefnogi dysgu disgyblion, gan ragweld gofynion academiaidd y flwyddyn ysgol sydd i ddod.

Hoffai ysgolion weld pob un o'u disgyblion yn dychwelyd ar gyfer rhyw sesiwn yn ystod y cyfnod 'gwirio' hwn. Os bydd rhieni/gofalwyr yn penderfynu peidio ag anfon

eu plant i'r ysgol yn ystod yr wythnosau hyn yn nhymor yr haf, ni fyddant yn cael eu cosbi.

Oherwydd gofynion cadw pellter cymdeithasol Llywodraeth Cymru, bydd ein cludiant i ysgolion rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei gyfyngu'n sylweddol. Anogir pob rhiant lle bynnag y bo'n bosibl i ddefnyddio eu cludiant eu hunain i fynd â phlant i'r ysgol os na allant gerdded neu feicio.

Mae Cyngor Caerdydd yn gweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau y gallant reoli'r modd y mae disgyblion a staff yn dychwelyd yn ddiogel, a chyfyngu ar ledaeniad y feirws drwy weithredu mewn amgylcheddau sy'n cadw pellter corfforol.

Bydd mesurau'n cynnwys:

- Gweithdrefnau iechyd a diogelwch newydd a fydd yn cynnwys asesiadau capasiti gofod ac asesiadau risg i nodi cyfaint, gosodiad priodol ar gelfi, symudiadau disgyblion a rheoli manau allanol.
- Hylendid a glanhau i sefydlu trefn olchi dwylo, glanhau pwynt cyswllt a glanhau trylwyr ar fannau ysgolion
- Asesiadau capasiti gweithlu i sicrhau staffio digonol ynghyd â pharatoi a chefnogi staff
- Nodi cyfarpar ac adnoddau ychwanegol megis cyfarpar diogelu personol (PPE) a'r defnydd ohono, wedi ei seilio ar gyngor gwybodus.
- Cymorth ychwanegol ar gyfer iechyd a llesiant disgyblion a staff ysgol
- Lledu palmentydd a llwybrau ar safleoedd rhai ysgolion i hwyluso cadw pellter cymdeithasol diogel wrth gyrraedd ac ar adegau gadael
- Cyflwyno cyfyngiadau 20mya dros dro ar ffyrdd o gwmpas ysgolion lle bo'n bosib ac ystyried cau ffyrdd dros dro yn ystod adegau gollwng a chodi plant.

Dylid nodi na fydd ysgolion yn darparu prydau felly bydd disgwyl i blant gyrraedd gyda phecyn bwyd. Ar gyfer plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, bydd y systemau e-dalebau a parent pay yn parhau'n weithredol.

Bydd ysgolion yn cyfathrebu eu cynlluniau ar gyfer yr ailgychwyn o'r 29 Mehefin wrth bob rhiant. Bydd y Cyngor cyn hir yn cyhoeddi cyfres o Gwestiynau Cyffredin y gallai disgyblion, rhieni a gofalwyr fod yn eu gofyn.

I gael rhagor o wybodaeth am ganllawiau Llywodraeth Cymru i ysgolion, ewch i: <https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws>

Cymorth byw'n annibynnol i gyn-filwr a dioddefwr llifogydd

Mae cyn-aelod 96 oed o'r Lluoedd Arfog y cafodd ei gartref ei ddinistrio yn ystod Storm Dennis wedi cael hwb mawr trwy gymorth Gwasanaethau Byw'n Annibynnol Caerdydd.

Achubwyd Gordon Matthews o'i gartref yn Nantgarw ar ei ben-blwydd yn 96 oed ym mis Chwefror pan ddaeth tywydd stormus a gwlyb y gaeaf â llifogydd i dde Cymru a rhannau eraill o'r wlad.

Cafodd Gordon, a fu'n aelod o'r Llu Awyr Brenhinol yn yr Ail Ryfel Byd, ei weld ar y newyddion teledu ledled Prydain yn cael ei gludo mewn cwch i ddiogelwch, gyda dŵr llifogydd hyd at uchder y pen-glin ym mhobman o'i amgylch. Ei fedalau rhyfel amhrisiadwy oedd yr unig bethau y llwyddodd i'w hachub o'i gartref cyn gadael.

Mae Mr Matthews bellach yn byw yn ddiogel ac yn iach gyda'i ferch Catherine yn y tŷ lle cafodd ei fagu yn Nghongwynlais, a hynny o ganlyniad i ymyriad gan Wasanaethau Byw'n Annibynnol y Cyngor.

Mae gan y gwasanaeth ymagwedd gwbl integredig tuag at ddileu rhwystrau i fywyd pob dydd ac annibyniaeth i bobl oeddrannus ac agored i niwed sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn seiliedig ar amcanion, cryfderau a deilliannau'r bobl hyn sydd wedi'u nodi. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo unigolion i barhau i fyw gartref a bod mor actif ac annibynnol â phosibl, drwy eu helpu i fanteisio ar wasanaethau, gan gynnig cyngor a chyfarpar iddynt neu wneud addasiadau yn eu cartrefi.

Gwnaed nifer o addasiadau gan y Cyngor i'r eiddo yn Nghongwynlais, gan gynnwys gosod lifft grisiau, cawod mynediad gwastad, rheiliau i gynorthwyo symudedd Mr Matthews o amgylch y tŷ, codwyr cadeiriau, a dolen gwely i helpu i fynd i'r gwely a chodi ohono, cyfleusterau gwresogi ychwanegol a gwell mynediad i'r cartref.

Dyweddodd y Cyngorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd: "Mae stori Mr Matthews yn enghraifft berffaith o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol i helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl gyhyd â phosibl. Mae'n dangos effaith y gwasanaeth ar fywydau pobl.

"O ganlyniad i'r gwaith yng nghartref merch Mr Matthews, mae'n gallu byw gyda'i deulu yn lle bod ar ei ben ei hun ar yr adeg hon sy'n arbennig o anodd. Rydyn ni'n gwybod ei fod yn dechrau gwella ar ôl y trallod a ddioddefodd yn gynharach eleni ac mae'n ymgartrefu'n dda iawn ac yn mwynhau ymarfer corff dyddiol yn y gymuned, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ei les corfforol a meddyliol."

Dyweddodd Catherine, merch Mr Matthew: "Dyw e ddim yn teimlo'n gaeth i'w ystafell wely mwyach. Does dim rhaid i fi boeni amdano'n dringo'r grisiau ar ei ben ei hun ac o bosib yn cael damwain. Mae'n gwneud cynnydd mawr yn ei fywyd o ddydd i ddydd, a hyd yn oed yn cerdded ychydig bach ymhellach bob dydd i gynyddu ei gryfder."

I gael rhagor o wybodaeth am Wasanaethau Byw'n Annibynnol y Cyngor, ewch i www.caerdydd.gov.uk/bywnannibynnol

Helpu i gynllunio Map Rhwydwaith Teithio Llesol

Gofynnir i rieni a phlant ddweud wrthym am y llwybrau rheolaidd y byddant yn eu cymryd ar droed neu ar sgwter neu feic er mwyn ein helpu i gynllunio Map Rhwydwaith Teithio Llesol.

Fel rhan o'n hymrwymiad i hyrwyddo a helpu teithio llesol i ysgolion mae angen i ni ddeall pa lwybrau a gaiff eu defnyddio a pha lwybrau newydd sydd eu hangen.

Llenwch eich llwybr a chewch dystysgrif i'ch plentyn yma:

<https://keepingcardiffmoving.co.uk/cy/active-travel-schools/take-action/map-rhwydwaith-teithio-llesol/>

Andrea Redmond

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd/Democratic Services Officer

Cyngor Caerdydd / Cardiff Council

E-bost/Email: A.Redmond@caerdydd.gov.uk / A.Redmond@cardiff.gov.uk

Ffôn/Tel: 02920 872434

Ystafell 286, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd CAERDYDD CF10 4UW

Room 286, County Hall, Atlantic Wharf CARDIFF CF10 4UW